



Eich llais mewn iechyd | Your voice in health
a gofal cymdeithasol | and social care

**Rydym wedi cael ymgyrch
ymgysylltu brysur a llwyddiannus
iawn a lansiwyd ym mis Ebrill 2023.**

**Rydym wedi siarad â dros 470 o
bobl mewn amrywiol
ddigwyddiadau ymgysylltu a
gynhaliwyd gennym ledled Gwent.**

**Rydym hefyd wedi dosbarthu
pecynnau gwirfoddoli i aelodau o'r
cyhoedd sydd â diddordeb yn
ogystal â llenyddiaeth eiriolaeth i
bobl sy'n chwilio am gymorth i godi
pryderon.**



Eich llais chi mewn | Your voice in health
iechyd a gofal | and social care

**RHOWCH EICH BARN CHI.
HAVE YOUR SAY.**



Ers mis Ebril 2023

bresennol yn y

digwyddiadau

ymgysyllthu hyn

Sioe Brynbuga

Digwyddiad Mawr Cwmbwrn

Ras Rafftau Trefynwy

Pride Caerffili

VivaFest

Pont-y-pŵl yn

y Parc

Digwyddiad Gofalwyr

Casnewydd

Digwyddiad Gwirfoddoli

Brynmawr



LLAIS

Eich llais chi mewn | Your voice in health
iechyd a gofal | and social care

**RHOWCH EICH BARN CHI.
HAVE YOUR SAY.**



Wythnos Allgymorth Staff

Bob chwarter mae ein staff yn mynd i lyfrgell ym mhob un o fwrdeistrefi Gwent i ymgysylltu â'r cyhoedd ynghylch yr hyn y mae Llais yn ei olygu a'r hyn y gallwn ei wneud drostynt!

Ym mis Awst aethom i'r llyfrgelloedd canlynol:

Llyfrgell Ty-du

Llyfrgell Bryn-mawr

Llyfrgell Trecelyn

Llyfrgell Cas-gwent

Llyfrgell Cwmbran

Buom yn siarad â dros 30 o bobl gan gael adborth hanfodol gan y cyhoedd!

LLAIS

Eich llais chi mewn | Your voice in health
iechyd a gofal | and social care

**RHOWCH EICH BARN CHI.
HAVE YOUR SAY.**

Rhoddodd pobl yr adborth canlynol i ni:

“Mae angen gwella gofal brys yng Ngwent gyda mwy o gapasiti gofal aciwt ac adrannau damweiniau ac achosion brys gwell/agosach.”

“Mwy o fynediad at wasanaethau cymdeithasol i rai dros 18 oed”

“Staff gwyh yn gwneud eu gorau glas gyda’r cymorth cyfyngedig a gânt”

Mae gan gartrefi preifat fwy o ddiddordeb mewn elw na gofal”

“Meddygfa i agor mwy o oriau e.e. yn hwyrach ac ar benwythnosau”

“Mae gwir angen gwella amseroedd aros mewn adrannau damweiniau ac achosion brys ac mae angen gwella amseroedd ymateb ar ôl canlyniadau profion ac ni ddylai fod angen mynd ar eu hôl”

“Mae’r bylchau mewn gofal cam-i-lawr oherwydd diffyg buddsoddiad yn y sector hwn yn cael eu llenwi gan ofalwyr gwirfoddol - ffrindiau a theulu sy’n parhau i fod yn brin o gefnogaeth i raddau helaeth. Mae'r system wedi torri”

“Ers diagnosis Alzheimer’s mae fy mam wedi derbyn gofal rhagorol gan y tîm mewnol yn y cartref gofal. Mae’r nyrs ardal wedi mynychu’n ddiweddar ac mae wrthi’n trefnu cael pants anymataliaeth.”

“Gwell gwasanaethau CAHMS i bobl ifanc yn eu harddegau”

“Mwy o fynediad at wasanaethau niwroamrywiaeth oedolion hy asesiadau awtistiaeth ac ADHD. Rwy'n wynebu aros o sawl blwyddyn ar ôl blynyddoedd eisoes heb unrhyw wasanaeth ar gael o gwbl”

“Gwneud hi’n haws i’r henoed gael mynediad at wasanaethau – gormod o fiwrocratiaeth”

“Mae angen gwell hyfforddiant ar staff cartrefi cymdeithasol”

“Pob clod am fy arhosiad diweddar yn ward cardiaidd ysbyty’r faenor. Da iawn gig. Derbyn gofal ar y gig.”

“Mae angen gwell hyfforddiant ar staff cartrefi cymdeithasol”

“Cawsom gefnogaeth ardderchog gan ein gweithiwr cymdeithasol”

“Gwasanaeth gwael yn ceisio cael cymorth iechyd meddwl ar gyfer fy merch yn ei harddegau.”

“Dylid delio â blocio gwelyau. Hapus bod y GIG/Gofal Cymdeithasol yn cael eu paru gyda’i gilydd”

“Hygyrchedd ysbytai. Mae Gwent yn arbennig yn hunllef ac yn straen dod o hyd i leoedd”

“Mae angen darparu a chynnig diagnosis ar gyfer oedolion ag ADHD, dyslecsia, dyspracsia a straen gweledol ac ati, ar y GIG”

“Mae gan gartrefi preifat fwy o ddi-ddordeb mewn elw na gofal”

“Bûm yn byw yng Nghasnewydd am 7 mlynedd yn dal i fethu dod o hyd i ddeintydd ar gig ag unrhyw leoedd ar gael”

“Gallai wneud gyda mwy o gyllid. Roedd staff yn ardderchog ac yn anhygoel trwy bandemig ac yn gofalu amdanaf. Rhestr aros hir ar gyfer orthopaedeg.”

“Mwy o ystyriaeth i gyfathrebu rhwng Cymru a Lloegr lle mae pobol ar y ffin”

“Mae rhestrau aros yn ofnadwy - trefnwch bethau”

“Gwell tâl i ofalwyr”

“Dyfodol Clinigol - dweud celwydd. Mae teithio i RGH yn daith gron o 50 milltir. Dim parcio/parcio cyfyngedig”

Mwy o feddygon yn Adran Damweiniau ac Achosion Brys Y Faenor”

“Pwynt cyswllt sengl ar gyfer ysbyty”

“Gwasanaethau cyflymach, mwy lleol a gwell seilwaith cymunedol”

“Gweithwyr cymdeithasol heb addysg ddigonol heb unrhyw brofiad ar sgiliau oes”

“Mynediad ysbyty o Gaerffili. Mae angen i ofal traed/podiatreg fod yng Nghaerffili.”



LLAIS

Eich llais chi mewn | Your voice in health
iechyd a gofal | and social care

**RHOWCH EICH BARN CHI.
HAVE YOUR SAY.**